

# **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

## **Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau**

**Adendwm 1**

**Mawrth 2008**

<b>Canolfan Gorfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder .....</b>	<b>6</b>
Y Grŵp e-Gyflwyno.....	6
Y Gyfarwyddiaeth Fasnachol a Chyllid:.....	7
Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol .....	9
Y Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Barnwrol .....	18
Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr .....	23
Grŵp Strategaeth .....	26
<b>Swyddfeydd Cysylltiedig .....</b>	<b>34</b>
Swyddfa Cronfeydd y Llys a Swyddfa'r Twrnai Swyddogol a'r Ymddiriedolwr Gwladol (SCLISTSYG).....	34
Y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (SDCT) .....	37
Swyddfa Cymru .....	40
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM).....	41
Gwasanaeth Carchardai EM .....	80
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.....	82
Y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.....	83
<b>Cyrff Cyhoeddus Anadrannol.....</b>	<b>86</b>
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol .....	86

## **Adolygiad blynyddol o Gynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol a Rhannau Perthnasol Cynllun Cyfun y Swyddfa Gartref**

Ym mis Ebrill 2007 roedd yr hen Adran Materion Cyfansoddiadol wedi cyhoeddi ei Chynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau cyntaf. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei Chynllun Cydraddoldeb Anabledd, Cydraddoldeb Hil a Chydraddoldeb rhwng y Rhywiau ar y cyd ar 5 Mai 2007. Yn dilyn y newidiadau yn y llywodraeth a gyflwynwyd ar 9 Mai 2007, unodd yr Adran Materion Cyfansoddiadol, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi gan greu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder newydd.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau y Weinyddiaeth Gyfiawnder rydym wedi adolygu gwaith yr hen AMC a rhannau perthnasol Cynllun cyfun y Swyddfa Gartref. Roedd yr adolygiad hwn ar ffurf diweddariadau yng nghyswllt y camau gweithredu a amlinellwyd yn yr hen Gynlluniau ac ailystyried y blaenoriaethau allweddol.

Dechreuodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei hadolygiad sefydliadol ym mis Awst 2007 a daw strwythur sefydliadol newydd i rym ar 1 Ebrill 2008. Roedd yr adolygiad yn archwilio sut bydd y meysydd busnes gwahanol yn cydweithio ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, roedd yn ystyried meysydd a oedd yn gorgyffwrdd a sut y bydd y Weinyddiaeth yn mynd â'r rhain rhagddynt. Tan 1 Ebrill bydd y meysydd busnes gwahanol yn parhau i weithio ar wahân yn weithredol.

### **Dyletswyddau Cyffredinol**

Mae gan yr hen AMC a meysydd Swyddfa Gartref y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o gamau gweithredu ar y gweill i roi sylw i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu yn ogystal â hyrwyddo cyfle ac agweddau cadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (GCRhT – NOMS) wedi sefydlu'r Tasglu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n helpu i yrru newid yn ei flaen. Mae'r tasglu'n cynnwys uwch reolwyr sy'n gweithredu i sicrhau bod dull gweithredu cyson ar gyfer delio â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Ar ben hynny mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi sicrhau bod eu gwefannau a'u safleoedd mewn rwyd yn hygyrch. Mae'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol wedi datblygu fframwaith ar gyfer mwy o ymgysylltu rheolaidd a rhagweithiol â rhanddeiliaid allweddol, ac mae'r Gwasanaeth Carchardai wedi cwblhau archwiliad cyflog cyfartal a oedd yn cynnwys dadansoddiad anabledd. Mae'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Aflonyddu a Bwlio.

### **Casglu Gwybodaeth**

Mae'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol wedi bod yn gweithio i ganfod y bylchau yn y ffordd mae'n casglu data ac mae wedi sefydlu gweithgor i gytuno ar ffyrdd o gasglu'r wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â staff yn y dyfodol. Mae rhagor o fanylion am y rhain ar gael yng Nghynllun newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae camau gweithredu penodol ar gael yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Adendwm 2.

Yn yr un modd mae hen feysydd y Swyddfa Gartref yn ystyried y bylchau yn eu data ac mae ganddynt nifer o gamau gweithredu parhaus i roi sylw i'r bylchau hyn (fel y gosodir allan yn Adendwm 2). Mae'r Gwasanaeth Carchardai hefyd yn cyflwyno dadansoddiad newydd o'i ddata Adnoddau Dynol o'r enw yr Adolygiad Amrywiaeth a roddir ar waith yn ystod 2008.

Mae'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol a meysydd Swyddfa Gartref y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi datblygu ac wedi cyflwyno pecynnau cymorth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r pecynnau cymorth hyn yn darparu canllawiau am yr wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch mynd â pholisïau rhagddynt. Mae canlyniad yr asesiadau hyn ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac er mis Rhagfyr 2007 mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd hefyd wedi cael eu cyhoeddi yn <http://www.justice.gov.uk/publications/equality-impact-assess.htm>

Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu fframwaith Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyson ar gyfer ei ddefnyddio ar draws y busnes a fydd yn sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn effeithiol ac yn systematig.

Mae cymharu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn uniongyrchol â'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Swyddfa Gartref yn broblemus oherwydd newidiadau sefydliadol a chreu'r weinyddiaeth newydd. Mae'r Cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi'n gymharol gyflym ar ôl y dogfennau blaenorol ac, o'r herwydd, ni fydd modd gweld llawer o newid sylweddol drwy'r data ystadegol.

### **Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd**

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi holl Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr hen AMC a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ei gwefan ac mae fformatau amgen ar gael ar gais. Bydd pob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y dyfodol yn cael ei gyhoeddi fel mater o drefn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau atebolrwydd am ein perfformiad.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cydnabod y problemau gyda'r broses o gasglu gwybodaeth, yn enwedig wrth ystyried datblygu data ystadegol ar gyfer y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Mae Adnoddau Dynol a'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol wedi bod yn gweithio i ddatblygu'r broses o gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

Mae Cynllun newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael ei ddrafftio gyda chyfraniad eang gan randdeiliaid mewnol ac allanol ac mae eu sylwadau wedi dylanwadu'n gryf ar y Cynllun.

### **Crynodeb**

Dim ond sampl o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r newidiadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yng nghorff y Cynlluniau Cydraddoldeb. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r gyfres gyntaf o Gynlluniau Cydraddoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder rydym wedi cynnwys pob cam gweithredu a oedd wedi'i osod allan yn yr hen Gynlluniau er mwyn sicrhau bod y gwaith yn parhau yn y meysydd hyn, a byddwn yn rhoi sylw penodol i wella'r ffordd rydym yn casglu data ar draws pob maes busnes yn y Weinyddiaeth newydd.

## Canolfan Gorfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

### Y Grŵp e-Gyflwyno

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried materion cydraddoldeb y rhywiau a allai godi cyn cychwyn prosiect a'u harchwilio'n barhaus gydol oes y prosiect</li> </ul>	Pennaeth y Grŵp e-Gyflwyno	Trefnu i unigolion enwebedig dderbyn hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG).	Ydy	Ydy

**Y Gyfarwyddiaeth Fasnachol a Chyllid:  
Is-adran Cyllid Gorfforaethol  
Is-adran Archwilio Mewnol  
Grŵp Masnachol**

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Penodi a hyfforddi unigolyn a enwyd i gyflawni Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</li> </ul>	Pennaeth Cyllid a'r Grŵp Masnachol	<p>Defnyddio sgiliau.</p> <p>Uwch reolwyr a rheolwyr canol i barhau i gyfarfod i drafod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a phennu meysydd lle bydd angen cynnal aseidiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.</p>	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mynychu Gweithdy Amrywiaeth Cyflenwyr i archwilio sut mae cynyddu'r amrywiaeth o gyflenwyr a ddefnyddir</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Caffael	<p>Sefydlu system ar gyfer casglu a gwerthuso data ar broffil cyflenwyr</p> <p>Sefydlu system ar gyfer casglu a gwerthuso data i wneud yn siŵr fod cyflenwyr yn ateb y gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a geir mewn contractau.</p>	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymarfer tendro ar gyfer glanhau wedi'i symleiddio i alluogi/annog mentrau llai, heb gynrychiolaeth ddigonol i gyfrannu at y broses</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Caffael	Parhau i archwilio/ehangu'r gronfa o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol	Ydy	Ydy

## Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol

### Is-Adran Dysgu a Datblygu

### Is-adran Tîm Rheoli Talent ac Uwch Staff

### Gwasanaethau Pobl

### Cyngor ac Arweiniad

### Polisi a Strategaeth AD

### Cymorth yn y Gweithle

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Pennu a hyfforddi personél allweddol i gyflawni Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Defnyddio sgiliau.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Holl gyfarwyddwyr cyrsiau i sicrhau bod amrywiaeth wedi'i wreiddio yn neunyddiau perthnasol y cyrsiau gan ddefnyddio cyngor a ddarperir yn ganolog gan Adnoddau Dynol, Rhwydweithiau Staff Corfforaethol ac arbenigwyr amrywiaeth eraill.</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Monitro ac adolygu	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio cynnwys y cwrs "Her Rheoli" i gynnwys sesiynau ymwybyddiaeth amrywiaeth penodol.</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Monitro a gwerthuso adborth	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbysebu cynllun mentora adrannol i'r holl staff drwy amrywiaeth o gyfryngau a cheisiadau'n cael eu hannog yn arbennig oddi wrth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'u hyrwyddo drwy Rwydweithiau Staff Corfforaethol.</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Monitro'r niferoedd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ymchwilio i unrhyw fylchau.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Amrywiaeth, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â rhywedd, yn orfodol ar gyfer y rheini sy'n ymuno o'r newydd ac mae timau datblygu rhanbarthol wedi bod yn cynnal cyrsiau ar gyfer Staff Llysoedd Ynadon (a ddaeth yn rhan o'r hen Adran Materion Cyfansoddiadol ym mis Ebrill 2005).</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	<p>Darparu hyfforddiant ar y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau.</p> <p>Datblygu pecyn E-Ddysgu ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda darparwr allanol.</p>	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob cwrs hyfforddiant wedi'i drefnu i gychwyn a gorffen ar amser addas (fel arfer 10.00 a.m. - 4.30 p.m.) ac mae'r rhan fwyaf yn gyrsiau di-breswyl; mae dewisiadau di-breswyl ar gael ar gyfer pob cwrs er mwyn gwella cyfranogiad grwpiau lleiafrifol</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Parhau i fonitro	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu deunyddiau i'r Rhwydwaith Materion Merched i helpu gyda'r gwaith o lunio'r archwiliad sgiliau</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	dim	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhedeg dau gwrs "Pendantrwydd ar gyfer Merched" mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Staff Corfforaethol i Ferched. Fe'u cynhaliwyd mewn ymateb i adborth yr aelodau ar yr archwiliad sgiliau. Mynychodd 17 aelod. Mae'r cyrsiau wedi cael eu gwerthuso ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn a rhoddwyd 'ardderchog' i'r cyrsiau pan gawsant eu hasesu.</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Gweithredu ar yr adborth	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dyfarnu contract ar gyfer hyfforddiant ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb wyneb yn wyneb ym mis Tachwedd 2007 ar ôl proses o dendro cystadleuol. Bydd y rhaglen hyfforddiant yn rhedeg tan Mawrth 2009. Mae'r hyfforddiant yn cael ymateb da - tua 3-4 cwrs yn cael eu cynnal bob mis ar draws y wlad</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Parhau	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith Gofalu i gyd-gynllunio'r cwrs "Datblygiad Personol a Gyrfaol i'r rhai sydd â Chyfrifoldebau Gofalu" – cynhaliwyd y cyntaf o'r cyrsiau hyn ym mis Tachwedd yn Leeds</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	Gwerthuso'r adborth a gweithredu ar y canfyddiadau.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu ymateb a chamau gweithredu i adolygiad diweddar o hyfforddiant mewn partneriaeth â'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.</li> </ul>	Dysgu a Datblygu	<p>Cynnydd yn cael ei wneud drwy restr o argymhellion e.e. (i) bydd modiwl e-ddysgu yn delio â dyletswyddau cydraddoldeb, (ii) hyfforddiant AEG wedi'i gyflwyno ers Rhagfyr 2007. Trefnir cyfarfodydd eraill i gynllunio sut i ddatblygu'r argymhellion sy'n weddill.</p>	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Comisiynu adroddiadau arolwg barn staff yn flynyddol gan gorff allanol a'u dadansoddi yn ôl pob maes amrywiaeth.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	<p>Parhau i fonitro a gwerthuso canlyniadau'r arolygon. Pennu ac archwilio unrhyw dueddiadau yng nghyswllt rhywedd a chymryd camau priodol.</p>	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfrannu at dargedau yn y Cynllun Deg Pwynt.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Parhau i roi camau gweithredu ar waith a monitro perfformiad yn erbyn y targedau.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal gweithdai ac ymgynghori'n ehangach gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar System Rheoli Perfformiad a Fframwaith Cymhwysedd newydd i staff yr hen AMC.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Gwerthuso'r system rheoli perfformiad a'r fframwaith cymhwysedd a sicrhau eu bod yn deg i bawb.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu'r polisi Cydnabod a Gwobrwyo 1 Hydref 2007 – ymgynghorwyd â Rhwydweithiau Staff Corfforaethol a cheisiwyd arweiniad oddi wrth sefydliadau arfer gorau e.e. ACAS, grwpiau rhyngadrannol a Fforymau Cyflogwyr.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Gwerthuso'r data ar daliadau cydnabod a gwobrwyo i sicrhau eu bod yn deg â phawb.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dyfarniadau cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil yn cael eu monitro yng nghyswllt amrywiaeth</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Parhau i fonitro a chanfod tueddiadau yng nghyswllt rhywedd a chymryd camau priodol.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu a gweithredu Llinell Gymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Gorfforaethol.</li> </ul>	Cymorth yn y Gweithle	Monitro, casglu data a gweithredu ar yr adborth	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwyr Cyfrif Recriwtio yn cynhyrchu a dosbarthu pecynnau briffio ar gyfer rheolwyr ymhob rhanbarth.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Cael ac asesu adborth i sicrhau y diwellir anghenion.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio Adroddiad Cyfansoddiad y Gweithlu yn flynyddol, canfod tueddiadau a llunio cynlluniau gweithredu priodol.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Monitro'r cynlluniau gweithredu. Parhau i gasglu data.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro hysbysebion swyddi i sicrhau bod swyddi'n cael eu hysbysebu fel 'swyddi nad ydynt yn addas ar gyfer gweithio hyblyg na llai o oriau' dim ond pan mae achos busnes da dros wneud hynny.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Parhau i fonitro a gorfodi lle bo angen.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â rhywedd ym mhob cyngor a ddarperir fel sy'n briodol.</li> </ul>	Cyngor ac Arweiniad	Parhau i sicrhau y rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â rhywedd fel sy'n briodol.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Achosion cwyno a disgyblu'n cael eu rheoli'n lleol</li> </ul>	Cyngor ac Arweiniad	<p>Adolygu cwynion yn ymwneud ag aflonyddu a gwahaniaethu a chwynion eraill a phennu unrhyw dueddiadau. Monitro gweithwyr y mae camau disgyblu ffurfiol wedi'u cymryd yn eu herbyn a phennu unrhyw dueddiadau.</p> <p>Gweithredu fel bo angen.</p>	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Merched mewn swyddi uwch yn cyfrannu'n rheolaidd at baneli recriwtio ac yn darparu sicrwydd ansawdd i sicrhau y cynhelir paneli cynrychioliadol.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Parhau i weithredu a monitro.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen i recriwtiaid allanol ddarparu tystiolaeth o sut y maent yn sicrhau y ceir ymgeiswyr amrywiol.</li> </ul>	Polisi a Strategaeth AD	Monitro a sicrhau y parheir i ganolbwyntio ar y mater	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>• System ar waith i sicrhau bod patrwm gweithio hyblyg ar gael ar gyfer swyddi'r graddau bwydo</li> </ul>	Tîm Rheoli Talent ac Uwch Staff	Monitro a gorfodi yn ôl yr angen	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu arweiniad ymarferol manwl i gynorthwyo Arweinwyr Tîm AD i gefnogi unigolion a all fod yn ystyried newid rhywedd a datblygu systemau i gefnogi staff sy'n newid tra'u bod yn gweithio. Hyrwyddwyd hyn drwy sawl cyfrwng e.e. cylchgronau mewnol a'r fewnrwyd</li> </ul>	Cyngor ac Arweiniad	Monitro ac adolygu	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio adroddiad ar dargedau'r Uwch Wasanaeth Sifil a'r graddau bwydo yn erbyn y Cynllun 10 Pwynt i'w adolygu gan y Bwrdd Rheoli Adrannol. Cynhyrchwyd adroddiadau ym mis Tachwedd 2007 ac anfonwyd hunanasesiadau i Swyddfa'r Cabinet.</li> </ul>				

## Y Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Barnwrol

Cyfarwyddiaeth Amrywiaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau Barnwrol

Is-adran Rheoliadau Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwneud lawn

Cyfarwyddiaeth Rhaglen Weithredu'r Goruchel Lys

Is-adran Penodiadau a Pholisi Barnwrol

Is-adran Adnoddau Dynol Barnwrol

Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi unigolyn a enwir sy'n gyfrifol am gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)</li> </ul>	Pennaeth y Grŵp Amrywiaeth Corfforaethol a Gwasanaethau Barnwrol	Penodi aelod staff ar gyfer y rôl AEG.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi adroddiad ym mis Tachwedd 2006 yn rhoi safbwyntiau'r gweithgor ynghylch gwella amrywiaeth yn y proffesiwn.</li> </ul>	Pennaeth Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwneud lawn	Monitro a'r gwaith yn mynd rhagddo	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu polisi'r Weinyddiaeth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i bob darpar gontractwr.</li> </ul>	Pennaeth Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwneud lawn	Y gwaith yn parhau	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi wedi'i ddatblygu ar gyfer Barnwriaeth y Goruchel Lys ar absenoldeb mamolaeth a thadolaeth. Bydd hwn yn rhan o'r llawlyfr staff pan gaiff ei gynhyrchu a'i weithredu.</li> </ul>	Pennaeth Tîm Gweithredu'r Goruchel Lys	Y gwaith yn parhau	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau AEG rhannol ar y polisi presennol</li> </ul>	Pennaeth Tîm Gweithredu'r Goruchel Lys	Monitro'r canlyniad a chynnal AEG llawn lle bo'n briodol	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gystadlu am gontractau caffael yn ogystal â darparu polisi'r Weinyddiaeth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a chopïau o'r Cynlluniau Cydraddoldeb i bob darpar gontractwr.</li> </ul>	Pennaeth Rhaglen Weithredu'r Goruchel Lys	Monitro a gwerthuso fel y bo'n briodol.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod contractwyr wedi deall ac wedi derbyn gofynion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder.</li> </ul>	Pennaeth Rhaglen Weithredu'r Goruchel Lys	Monitro a gwerthuso fel y bo'n briodol.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Comisiwn Penodiadau Barnwrol i sicrhau annibyniaeth a thryloywder yn y broses ddeddf. Mae gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddyletswydd i ystyried yr angen i annog amrywiaeth yn y rheini sydd ar gael i'w dethol.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Penodiadau a Pholisi Barnwrol	Monitro a gwerthuso fel y bo'n briodol.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Deunydd recriwtio ynadon wedi'i gynllunio a'i brofi i ddiwallu anghenion pob darpar ymgeisydd.</li> </ul>	Pennaeth Tîm Recriwtio a Pholisi Barnwrol	Monitro ac adolygu	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi unigolyn a enwir sy'n gyfrifol am gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn y maes busnes</li> </ul>	Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Barnwrol	Sicrhau bod yr unigolyn a enwir wedi cael hyfforddiant yn y broses AEG. Cymhwyso sgiliau.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Yr Is-adran Adnoddau Dynol Barnwrol yn gysylltiedig â phroses amrywiaeth yr adran ac wedi cyflwyno gwaith rhan amser ar gyflog a seibiannau gyrfa ar gyfer y farnwriaeth yn ddiethriad. Mae'r naill a'r llall yn ystyried y gofynion deddfwriaethol presennol.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Adnoddau Dynol Barnwrol.	Monitro a gwerthuso i wneud yn siŵr fod staff yn gallu manteisio ar weithio llai o oriau a seibiannau gyrfa.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Hyfforddiant amrywiaeth ar gael fel rhan o'r broses gynefino i staff ar draws y Weinyddiaeth gan gynnwys GLIEM a thribiwnlysoedd.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	Monitro i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflenwi	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Hyfforddiant a chefnogaeth wedi'u targedu ar AEG wedi'u darparu i staff. Bydd hyfforddiant AEG ar gael o Rhagfyr 2007.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	Sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant AEG a lle bo angen, clustnodir unigolyn ymhob cangen i gynnal yr AEG.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sesiynau Briffio Uwch Reolwyr er mwyn gwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y busnes.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	Sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu trosglwyddo drwy'r sefydliad.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Digwyddiadau a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	Y gwaith yn parhau	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu grŵp cyfeirio allanol dan arweiniad gweinidog gyda chyfranogwyr o amryfal fudiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth (cynrychiolaeth o'r 6 maes amrywiaeth) gan gynnwys y comisiynau cydraddoldeb.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	Cynnal y ffocws ar randdeiliaid.	Ydy	Ydy

## Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy

**Cyfarwyddiaeth Comisiynu a Phartneriaethau**  
**Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**  
**Partneriaethau Iechyd a Throseddwy**  
**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol**  
**Polisi Dedfrydu a'r Gyfraith**  
**Uned Cosbau a Pholisïau Dedfrydu**  
**Ysgrifenyddiaeth y Gweithgor a'r Comisiwn Dedfrydu**  
**Uned Polisi a Chyfraith Droseddol**  
**Uned Cyfiawnder Ieuencid ar y Cyd**  
**Uned Polisi Merched**  
**Gwasanaethau Gwybodaeth am Droseddwy**

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar ddogfennau allweddol</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Parhau i wreiddio'r broses AEG yn y busnes	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol parthed ffocws a chynnwys dogfennau.</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Cadw'r ffocws ar randdeiliaid.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi comisiynwyr rhanbarthol i ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cynlluniau comisiynu rhanbarthol.</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Sicrhau bod y GCRhT yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Bwrdd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer y GCRhT i hwyluso cynnwys pobl allanol yn agenda Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y GCRhT.</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Tasglu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y GCRhT i roi argymhellion yr Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith.</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Parhau i roi argymhellion yr adolygiad ar waith.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu cynigion ar gyfer Cytundeb Lefel Gwasanaeth</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Gweithredu ar y canfyddiadau	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchu a dosbarthu camau gweithredu ar gyfer Lleihau Risg</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Monitro ac adolygu	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchu Polisi a Safon Cydraddoldeb Drafft sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd.</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Ymgynghori ar y drafft, dadansoddi'r adborth a gweithredu ar y canfyddiadau.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymdeithasau staff yn cymryd rhan weithredol ym mhroses asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb y GCRhT.</li> </ul>	Pennaeth y GCRhT	Parhau i gynnwys cymdeithasau staff i sicrhau bod yr AEG yn cyrraedd y safon ofynnol.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu a gweithredu proses asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb y GCRhT a gweithredu fel swyddogaeth sicrhau ansawdd cyn i'r uwch fwrdd polisi gymeradwyo'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.</li> </ul>	Pennaeth GCRhT	Parhau i ddatblygu'r broses drwy Weithgor yr AEG ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro gweithredu'r argymhellion sy'n deillio o Adroddiad Corston.</li> </ul>	Pennaeth GCRhT	Gwaith yn parhau	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda'r tîm cydraddoldeb ac amrywiaeth i sicrhau bod prosesau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cyfleu i'r holl staff.</li> </ul>	Pennaeth GCRhT	Dim	Ydy	Ydy

## Grŵp Strategaeth

### Y Gyfarwyddiaeth Strategaeth:

Is-adran Datblygu Strategaethau a Phrosiectau

Ysgrifenyddiaeth Bwrdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder:-

Uned Ymchwil

Is-Adran Ystadegau ac Economeg

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>Gwaith paratoadol ar hyn o bryd. Trafodaethau'n parhau. Cyflwyno'r Mesur mae'n debyg ym mis Tachwedd 2007</li></ul>	Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth	Parhau i weithio ar y Mesur ac asesu'r effaith ar wahanol grwpiau	Ydy	Na

## Y GYFARWYDDIAETH GYFATHREBU

**Cyfathrebu Strategol**  
**Darparu Gwasanaethau Cyfathrebu**  
**Cyfathrebu Mewnol**  
**Addysg Gwybodaeth a Chyngor (AGaCh)**  
**Is-adran Newyddion**

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
• Datblygu cynllun cyfathrebu strategol effeithiol	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Monitro ac adolygu	Ydy	Ydy
• Cwblhau'r adolygiad caffael	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Monitro ac adolygu	Ydy	Ydy
• Sefydlu fframwaith o gyfathrebu effeithiol er mwyn darparu cynnyrch o ansawdd uchel	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Monitro i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu.	Ydy	Na
• Cwblhau cam un cynllun peilot sy'n hybu'r defnydd o ymatebion o waith allgymorth cymunedol ynghyd ag ymarfer casglu enghreifftiau o arferion gorau.	Cyfarwyddwr Addysg Gwybodaeth a Chyngor	Gwerthuso'r cynllun peilot a datblygu argymhellion a chynlluniau gweithredu fel y bo'n briodol	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a Gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Staff yn y tîm yn cael eu briffio'n rheolaidd am bwysigrwydd materion amrywiaeth a defnyddio'r arf ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb wrth gyflwyno polisiau newydd.</li> </ul>	Cyfarwyddwr Addysg Gwybodaeth a Chyngor	Y Gweithwyr Cyswllt Busnes Amrywiaeth yn parhau i friffio'r is-adran fel y bo'n briodol.	Ydy	Ydy

**Y GYFARWYDDIAETH NEWID:  
Rhaglen Gweithredu Galluedd Meddyliol (wedi cau 31 Hydref 2007)  
Uned Claddedigaethau/Crwneriaid  
Tîm Cefnogi a Sicrhau Newid Adrannol**

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynrychioli'r Rhaglen Gweithredu Galluedd Meddyliol mewn nifer o ddigwyddiadau amrywiaeth ar gyfer rhanddeiliaid yn 2006</li> </ul>	Cyfarwyddwr Newid	Dim	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob mudiad gofalwyr teulu o bwys wedi'u hychwanegu at gronfa ddata rhanddeiliaid y RhGGM</li> </ul>	Cyfarwyddwr Newid	Parhau i ehangu'r gronfa ddata o randdeiliaid	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoddodd yr Uned Crwneriaid gyngor i grwneriaid unigol am bobl heb alluedd a materion yn ymwneud â gofalwyr teulu ac maent yn helpu lle bo modd gyda chyswllt ag Awdurdodau Lleol.</li> </ul>	Pennaeth yr Uned Crwneriaid	Parhau i ddarparu cyngor yn ôl yr angen	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio taflen codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer pobl heb alluedd a gofalwyr mewn teuluoedd.</li> </ul>	Cyfarwyddwr Newid	Gwerthuso adborth i asesu effeithiolrwydd y daflen.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhwng yr Uned Crwneriaid, cynrychiolwyr crwneriaid, gweithwyr proffesiynol yn y maes claddu, grwpiau ffydd a rhanddeiliaid eraill â buddiant yn rhoi cyfle i godi a thrafod meysydd diddordeb perthnasol, gan gynnwys materion cydraddoldeb.</li> </ul>	Pennaeth yr Uned Crwneriaid.	Cadw ffocws ar y rhanddeiliaid	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Enwi swyddog amrywiaeth allweddol a fydd yn sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cyflawni gan bob prosiect a rhaglen a bod pob mater sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn cael ei ystyried ac y rhoddir sylw i bob un.</li> </ul>	Cyfarwyddwr Newid	Monitro a gwerthuso	Ydy	Ydy

## Y GYFARWYDDIAETH GYFANSODDIADOL

Llywodraethu Prydain

Yr Is-adran Polisi Etholiadol

Yr Is-adran Hawliau Dynol

Yr Is-adran Hawliau Gwybodaeth

Yr Is-adran Setliad Cyfansoddiadol

Yr Is-adran Ewropeaidd a Rhyngwladol

Swyddfa'r Rhaglen Gyfansoddiadol ac Uned Anrhydeddau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneud cyflwyniadau i grwpiau cymunedol amrywiol i wella'u hymwybyddiaeth o'r broses gofrestru</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Polisi Etholiadol	Dadansoddi'r adborth a gweithredu ar y canfyddiadau i asesu effaith y cyflwyniadau	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynorthwyo'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gyda Chyfarwydddeb Rhywedd yr UE.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Ewropeaidd a Rhyngwladol	Cynnal yr ymgysylltiad.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglenni o gynlluniau peilot yn 2006-2010 ar bleidleisio electronig a gweinyddol.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Polisi Etholiadol	Monitro a gwerthuso'r rhaglen o gynlluniau peilot.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dros 100,000 copi o'r arweiniad ar Hawliau Dynol wedi cael eu dosbarthu ar draws gymunedau.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Hawliau Dynol	<p>Monitro'r adborth a gweithredu ar y canfyddiadau.</p> <p>Defnyddio'r strategaeth gyfathrebu i barhau i wella hyder y cyhoedd.</p>	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynghori sefydliadau preifat ac Awdurdodau Cyhoeddus ar y Ddeddf Cydnabod Rhywedd, gan gynnwys eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.</li> </ul>	Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Gyfansoddiadol	Gwaith yn parhau.	Ydy	Ydy

## Y GYFARWYDDIAETH STRATEGAETH CYMORTH CYFREITHIOL

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori ar, a chyflwyno ffoedd sefydlog ar gyfer sawl math o waith (gwaith llysoedd ynadon mewn ardaloedd trefol a phob gwaith sifil cynnar ac eithrio iechyd meddwl).</li> </ul>	Pennaeth Cyfarwyddiaeth Strategaeth Cymorth Cyfreithiol	Monitro a gwerthuso'r gwaith yn y maes hwn.  Cynnal AEG er mwyn asesu'r effaith		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi cyflwyno ac adolygu'r drefn prawf modd yn y Llysoedd Ynadon gan sicrhau bod y rhai sy'n gallu fforddio talu yn talu am gynrychiolaeth gyfreithiol, gan gyflawni arbedion o ryw £35 miliwn y flwyddyn a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn meysydd blaenoriaeth eraill lle darperir cyllid cyfreithiol.</li> </ul>	Pennaeth Cyfarwyddiaeth Strategaeth Cymorth Cyfreithiol	Asesu effaith yr adolygiad.	Na	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi defnyddio egwyddorion llywodraeth agored ar gyfer recriwtio comisiynwyr a oedd yn cynnwys proses graffu annibynnol gan banel annibynnol</li> </ul>	Pennaeth Cyfarwyddiaeth Strategaeth Cymorth Cyfreithiol	Parhau i fonitro ac adolygu'r broses.	Ydy	Ydy

## Camau a gymerwyd

### Swyddfeydd Cysylltiedig

#### Swyddfa Cronfeydd y Llys a Swyddfa'r Twnai Swyddogol a'r Ymddiriedolwr Gwladol (SCLISTSYG)

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r naill swyddfa a'r llall wedi gweithio ar raglenni Allgymorth, wedi adolygu a diweddarau eu llenyddiaeth, wedi cynnal cynadleddau i uwch staff i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â staff ac mae Gweithgorau Amrywiaeth wedi deillio o hynny. Mae hyn wedi arwain at ddull gweithredu mwy cydgysylltiedig wrth wasanaethu ein cleientiaid ac mae ymgysylltiad â phartneriaid megis GLIEM wedi arwain at welliannau yn ein gwasanaethau i blant</li> </ul>	Pennaeth SCLISTSYG	<p>Parhau gyda'r cynlluniau.</p> <p>Darparu gweithdai ar gyfer staff i roi sylw i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth.</p>	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau'r prosesau tendro ar gyfer darparwr bancio newydd a'r broses 'enbloc' ac mae'r naill ddarparwr a'r llall wedi diwallu'r gofynion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</li> </ul>	Pennaeth SCLISTSYG	Dim	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhaliwyd Rhaglenni Allgymorth sydd wedi ein gweld yn ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr mewn llysoedd, Cymdeithas Bancio Prydain, Awdurdodau Lleol a chadeirio ein cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr ein hunain. Rydym wedi llwyddo i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol, Age Concern, Reunite, NSPCC, Mind a Chyngor y Bar Teulu. Mae'r grwpiau hyn wedi ein helpu i hoelio ein sylw ar sicrhau y diwallir anghenion ein cleientiaid.</li> </ul>	Pennaeth SCLISTSYG	Parhau i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses sefydliadol lle bo hynny'n briodol.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae monitro'n mynd rhagddo dan bob maes amrywiaeth ac mae'r adborth gan gwsmeriaid wedi bod yn gadarnhaol ac yn dystiolaeth fod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion y partïon sy'n gyfreithiol analluog yr ydym yn eu cynrychioli ac yn monitro eu hadnoddau ariannol.</li> </ul>	Pennaeth SCLISTSYG	Parhau i fonitro a gwerthuso'r adborth.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarparwn ar gael ar y rhyngwyd, drwy redeg/cynnal grwpiau/fforymau defnyddwyr lleol, allgymorth mewn cymunedau lleol, a mentrau ar draws asiantaethau.</li> </ul>	Pennaeth SCLISTSYG	Sicrhau bod yr holl wybodaeth yn hollol hygyrch. Dynodi ein sylfaen cleientiaid i sicrhau bod angen yn cael ei ddiwallu'n barhaus.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Unigolyn penodedig wedi'i benodi a'i hyfforddi i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</li> </ul>	Pennaeth SCLISTSYG	Defnyddio sgiliau	Ydy	Ydy

## Y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (SDCT)

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a phrofi systemau casglu/monitro data. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda darparwr gwasanaeth allweddol yn y sector gwirfoddol i weithredu prosesau monitro ac asesu'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt Anabledd, Rhywedd a Hil. I'w symud ymlaen yn 2008.</li> </ul>	Pennaeth y SDCT	Parhau i werthuso'r systemau casglu/monitro data.	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau â'r rhaglen o sgrinio polisïau a chynnal asesiadau llawn o'r effaith ar gydraddoldeb fel sy'n briodol. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ar y Cynllun Strategol drafft ac roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, ar draws meysydd cydraddoldeb.</li> </ul>	Pennaeth y SDCT	Parhau gyda phrosesau AEG.	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu fframwaith ar gyfer ymgysylltu'n fwy rheolaidd a rhagweithiol â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau defnyddwyr i helpu i ganfod meysydd y mae angen eu gwella yng nghyswllt cydraddoldeb. Ymgynghori'n digwydd mewn Unedau Polisi a meysydd busnes. Y fframwaith arfaethedig ynghyd â Strategaeth y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol.</li> </ul>	Pennaeth y SDCT	Dadansoddi'r adborth o'r ymgynghori a rhoi unrhyw gamau angenrheidiol ar waith	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu strwythurau er mwyn gallu adolygu/asesu gwasanaethau. Mae'r dasg o lunio cwrpas cychwynnol y gwaith hwn wedi cael ei gwblhau ac mae rhan gyntaf y Prosiect (gwaith mapio) ar fin dechrau.</li> </ul>	Pennaeth y SDCT	Gwaith yn parhau	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Strategaeth Amrywiaeth a Chydraddoldeb ar gyfer y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol i gyd ac ailsefydlu Grŵp ar draws y Gyfarwyddiaeth i oruchwylio a monitro ei gweithrediad. Mae'r gwaith wedi dechrau (llunio cwmpas a pharatoi briff y prosiect)</li> </ul>	Pennaeth y SDCT	Parhau i fonitro / gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.	Ydy	Ydy

## Swyddfa Cymru

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi cydlynnydd amrywiaeth i symleiddio a chyflwyno'r agenda amrywiaeth a hefyd bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer pob mater sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb.</li> </ul>	Pennaeth Swyddfa Cymru	Parhau i gefnogi a chyflwyno'r agenda amrywiaeth	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu Gweithgor i gynorthwyo gyda'r gwaith o brif-ffrydio materion amrywiaeth yn y busnes</li> </ul>	Cydlynnydd Amrywiaeth	Gwerthuso'r adborth a chymryd camau priodol	Ydy	Ydy

## ASIANTAETHAU

### Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM)

### Cyfarwyddiaeth: Gwasanaethau Sifil a Theulu a Gwasanaeth i Gwsmeriaid

### Is-adran: Yr Is-adran Cyfiawnder a Chyfraith Sifil

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'r system bresennol ar gyfer esgusodi a dileu ffioedd yn ystod 2006 i sicrhau bod hynny'n cael ei dargedu'n dda a'i weithredu'n gyson ym mhob llys. Diben y cynllun yw sicrhau na chaiff pobl heb lawer o fodd eu hatal rhag mynd i'r llysoedd oherwydd na allant wirioneddol fforddio talu ffioedd y llys. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn a gweithredwyd newidiadau ym mis Hydref 2007.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cyfiawnder Sifil	Adolygiadau achlysurol i sicrhau bod yr angen yn cael ei ddiwallu gan gynnwys ymgynghori'n briodol â grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys y rhai sydd â buddiant arbennig yn y maes amrywiaeth.	Ydy	Na

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodwyd 18 o gyfryngwyr hawliadau bychain hyd yn hyn – gellir cyfryngu dros y ffôn heb i'r defnyddiwr llys orfod mynd i'r llys. Bydd gan bob defnyddiwr llys yng Nghymru a Lloegr fynediad i'r gwasanaeth o fis Ebrill 2008 ymlaen.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cyfiawnder Sifil	<p>Ymatebion wedi'u dadansoddi i ganfod a ydym yn diwallu ein gofynion amrywiaeth ac i archwilio ffyrdd o wella'r gwasanaethau yn gyffredinol ar gyfer ein holl gwsmeriaid.</p> <p>Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn os oes raid.</p>	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae GLIEM hefyd wedi cyflwyno llinell gymorth/gwasanaeth cyfeirio cyfryngu genedlaethol (<a href="http://www.nationalmediationhelpline.com">www.nationalmediationhelpline.com</a>), lle gellir trefnu cyfryngwyr dros y ffôn neu'r rhyngwyd.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cyfiawnder Sifil	Parhau i fonitro	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae GLIEM yn treialu gwasanaeth datrys anghydfodau ar-lein.</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cyfiawnder Sifil	Monitro, gwerthuso, ac adrodd	Ydy	Ydy

			<b>Mae'r Cam Gweithredu Hwn yn Diwallu Dyletswydd Cydraddoldeb y Rhywiau</b>	
<b>Camau a gymerwyd:</b>	<b>Uwch Berchennog</b>	<b>Camau Gweithredu sy'n Codi</b>	<b>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon</b>	<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu cynllun peilot gwasanaeth cyfryngu yn y gymuned yn Ne Orllewin Llundain</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cyfiawnder Sifil	Monitro ac adrodd	Ydy	Ydy
<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn 2005 cafwyd ymgynghori priodol â grwpiau rhanddeiliaid ac ystyriwyd materion amrywiaeth fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol cychwynnol. Dim gwaith pellach ar yr agwedd hon ers yr Archwiliadau Hil, Anabledd a Rhywedd ym mis Rhagfyr 2006. Ymgynghoriad pellach ar fanylion y cynlluniau yn ddiweddarach eleni. (Adolygu'r gorchmynion gweinyddol)</li> </ul>	Pennaeth yr Is-adran Cyfiawnder Sifil	Cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad  Gweithredu ar yr adborth.	Ydy	Ydy
